Care & Repair Cymru

# STAFF,
# EIN HASED ORAU

## Gwybodaeth o 52 cyfweliad manwl gyda Staff Gofal a Thrwsio



## Crynodeb Gweithredol

Drwy ddod â lleisiau staff Gofal a Thrwsio o bob rhan o Gymru ynghyd, mae'r adroddiad hwn yn codi cwr y llen ar y gwerthoedd a gaiff eu rhannu, y profiadau a'r heriau sy'n sylfaen i waith y sefydliad.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar 52 cyfweliad manwl gyda staff ym mhedair prif swydd Gofal a Thrwsio: gweithwyr achos, gweinyddwyr, tasgmyn a  swyddogion technegol. Mae'r cyfweliadau yn unigryw wrth ddangos sut mae'r gweithlu yn gyson yn darparu cymorth dibynadwy a holistig ar gyfer unigolion hŷn a bregus.

Drwy'r cyfweliadau, daw ymddiriedaeth i'r amlwg fel sylfaen gwasanaeth Gofal a Thrwsio. Mae staff yn sôn am bwysigrwydd adeiladu a chynnal perthynas o ymddiriedaeth o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at gwblhau gwaith. Mae'r ymddiriedaeth hon yn annog cleientiaid i ymgysylltu gyda gwasanaethau a dychwelyd am fwy o gefnogaeth, gan gryfhau enw da y sefydliad am uniondeb ac am fod yn ddibynadwy. Mae'r adroddiad hefyd yn tanlinellu dull gweithredu holistig a rhagweithiol staff, wrth iddynt bob amser edrych tu ôl i'r broblem ddechreuol i ddynodi risgiau cudd, anghenion na chânt eu diwallu a chyfleoedd ar gyfer ymyriad ataliol.

Hyd yn oed mewn amgylchedd pwysau uchel a nodweddir gan lwythi achos trwm, adnoddau cyfyngedig a gofynion rhyddhau ar frys o ysbyty, mae staff yn dangos eu bod yn hyblyg a chydnerth. Maent yn cydbwyso effeithiolrwydd gyda sensitifrwydd ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cleientiaid mewn amgylchiadau heriol. Mae cydweithio a gwaith tîm yn hybu effeithlonrwydd y sefydliad, gyda gwahanol rolau staff yn gweithio'n llyfn wrth ochr therapyddion galwedigaethol, contractwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos ymroddiad, arbenigedd a hyblygrwydd staff Gofal a Thrwsio, sy'n parhau i fod yn ased fwyaf y sefydliad wrth gyflwyno cymorth sy'n newid bywyd i'r rhai sydd mewn angen mwyaf.

## Cyflwyniad

Daeth gweithdy gyda'r teitl *Profiadau o'r Rheng Flaen* yng Nghynhadledd Gofal a Thrwsio yn 2024 â staff Gofal a Thrwsio o bob rhan o Gymru ynghyd i siarad am uchafbwyntiau a heriau eu gwaith.

Bu'r sesiwn honno yn sbardun i'r weledigaeth am yr adroddiad hwn gan ysbrydoli'r syniad o gynnal cyfweliadau manwl gyda staff mewn gwahanol swyddi ym mhob un o 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio.

Gweithwyr achos, gweinyddwyr, tasgmyn a swyddogion technegol yw'r swyddi y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn. Mae'r swyddi hyn yn rhannu themâu canolog a thebygrwydd ar draws Cymru, er eu bod yn gwahaniaethu'n fwyaf amlwg yn y rôl tasgmyn. Er fod yr adroddiad hwn yn defnyddio "tasgmon", dim ond pump neu chwech o Asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n defnyddio'r teitl hwnnw. Mae eraill yn cyfeirio at Swyddogion Cynnal a Chadw Cartrefi, Technegwyr Diogelwch yn y Cartref, Swyddogion

Mân Addasiadau neu Grefftwyr. Dengys yr amrywiaeth yma fod rôl "tasgmon" yn Gofal a Thrwsio yn aml yn mynd tu hwnt i fân waith trwsio ac ati i gynnwys addasiadau a chynnal a chadw medrus iawn.

Mae'r adroddiad yn dynodi'r themâu a sgiliau mwyaf cyffredin ar draws y pedair swydd ac yn ymchwilio'r gwerthoedd mwy sy'n nodweddu'r gweithlu drwyddi draw.

Er mai dim ond dyfyniadau byr a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, mae dyfyniadau hirach a llawnach yn yr adendwm. Mae hyn yn cynnwys anecdotau a sylwadau nad oedd yn bosibl eu cynnwys yn gryno yn yr adroddiad hwn.

## Methodoleg

Rhwng diwedd 2024 a haf 2025 fe wnaethom gynnal cyfweliadau un i un gyda staff o holl Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Fe wnaethom ddewis cyfweliadau i gasglu profiadau staff yn fanwl, gan roi gwybodaeth gyfoethog ar werthoedd ac arferion. Fe wnaeth y dull hwn hefyd ein galluogi i ymchwilio rhai pethau sydd ond yn dod i'r amlwg drwy sgwrs fanwl.

Mae'r pedair swydd a ddewiswyd yn cynrychioli'r rhai sydd yn cael cyllid craidd amlaf ac sydd yn bodoli ym mhob Asiantaeth Gofal a Thrwsio: gweithwyr achos, gweinyddwyr, tasgmyn a swyddogion technegol. Cafodd pob un o'r 13 Asiantaeth ar draws Cymru eu cynrychioli. Roedd cymryd rhan yn wirfoddol a chymerodd rheolwyr llinell ran yn y broses ddewis.

Cynhaliwyd cyfanswm o 52 cyfweliad: 36 wyneb yn wyneb a 16 ar-lein. Roedd pob cyfweliad yn parhau rhwng 25 a 45 munud ac yn dilyn fformat lled-strwythuredig. Defnyddiwyd 8-10 cwestiwn pen agored a chaniatawyd i gyfranogwyr fynd ble fynnent gyda'r cwestiynau. Roedd hyn yn annog cyfranogwyr i gyflwyno pynciau newydd a rhannu'r enghreifftiau sydd fwyaf ystyrlon iddynt.

Defnyddiwyd dulliau trawsysgrifio deallusrwydd artiffisial i gipio pob cyfweliad. Roedd y trawsysgrifau yn fwy na 53,000 o eiriau rhyngddynt. I reoli'r set data hwn, fe wnaethom ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i ddynodi themâu cyson ar draws y gweithlu ac o fewn pob rôl. Fe wnaeth ChatGPT grynhoi'r themâu allweddol, grwpio materion cyffredin ac amlygu dyfyniadau dangosol.

Fe wnaethom sicrhau bod y broses hon yn ddibynadwy drwy fynd ati ein hunain i adolygu allbynnau deallusrwydd artiffisial. Cafodd crynodebau o'r trawsysgrifau eu cymharu gyda'r fersiynau gwreiddiol, cafodd geiriad dyfyniadau eu fireinio ac ychwanegwyd ein dadansoddiad a'n dehongliad ein hunain. Cymharwyd themâu ar draws swyddi ac Asiantaethau i ddynodi patrymau oedd yn cael eu rhannu a hefyd batrymau neilltuol.



## Canfyddiadau Allweddol

**Themâu ar draws Gweithlu Gofal a Thrwsio**

1. **Ymrwymiad i Les Cleientiaid**
   Mae staff ym mhob rôl yn mynd tu hwnt i'w disgrifiadau swydd ffurfiol i sicrhau fod pobl hŷn a fregus yn parhau yn ddiogel, cysurus ac yn cael eu parchu yn eu cartrefi. Mae empathi a thosturi yn llywio eu cyswllt gyda chleientiaid.

2. **Ymddiriedaeth fel Sylfaen Gwasanaeth**
   Mae staff yn meithrin ymddiriedaeth drwy groesawu galwadau cyntaf, asesiadau technegol onest ac ymweliadau cartref sy'n dangos parch. Mae ymddiriedaeth yn galluogi cleientiaid i gysylltu gyda gwasanaethau a dychwelyd dro ar ôl tro at Gofal a Thrwsio.

3. **Arfer Holistig a Rhagweithiol**
   Anaml mae staff yn trin y broblem ddechreuol ar ei phen ei hun. Maent yn gyson yn edrych tu hwnt i'r cais gwreiddiol i ddynodi risgiau cudd, anghenion na chaiff eu diwallu a chyfleoedd ar gyfer cymorth ataliol. Mae'r dull hwn yn gostwng derbyniadau i ysbyty, yn mynd i'r afael â theimladau o fod yn ynysig ac yn gwella llesiant cyffredinol.

4. **Gallu i Addasu dan Bwysau**
   Mae'r gweithlu yn gweithredu mewn amgylchedd anodd gyda llwythi achos trwm, cyllid cyfyngedig a phwysau ar frys gyda rhyddhau o ysbyty. Mae staff yn addasu'n gyflym i anghenion cleientiaid, cyfyngiadau cyllid ac achosion cymhleth, gan bob amser gydbwyso effeithiolrwydd gyda sensitifrwydd.

5. **Cydweithio a Gwaith Tîm**
   Mae gan weinyddwyr, gweithwyr achos, tasgmyn a swyddogion technegol rolau neilltuol ond mae'r sefydliad yn dibynnu ar gydweithio parhaus. Mae staff yn gweithio'n agos gyda therapyddion galwedigaethol, contractwyr a chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynyddu effaith i'r eithaf.

6. **Cydnerthedd Emosiynol a Gwobr Ddynol**
   Daw staff i gysylltiad ag amgylchiadau sy'n peri gofid, yn cynnwys achosion diwedd oes a chleientiaid sy'n byw mewn amodau gwael. Er y gofynion emosiynol, mae llawer yn canfod y gwaith yn werth chweil iawn, a chaiff hynny ei hybu gan ddiolchgarwch cleientiaid a gwelliannau amlwg mewn ansawdd bywyd.

**Cryfderau ar draws y Gweithlu Gofal a Thrwsio**
- Gweithlu a gaiff ei uno gan empathi, parch ac uniondeb.
- Diwylliant rhagweithiol wrth ddatrys problemau ac asesiad holistig.
- Cydweithio cryf rhwng swyddi a gweithio partneriaeth.
- Ymddiriedaeth a theyrngarwch dwfn gan gleientiaid, a all yn aml barhau am flynyddoedd.

**Heriau ar draws Gweithlu Gofal a Thrwsio**
- Galw cynyddol ynghyd ag adnoddau cyfyngedig

- Pwysau emosiynol a blinder cydnerthedd ar gyfer staff rheng-flaen
- Amrywiaeth mewn darpariaeth gwasanaeth ar draws rhanbarthau
- Cyfyngiadau parhaus ar gyllid sy'n llesteirio cwmpas ac ymatebolrwydd

# Gweithwyr Achos

**Crynodeb o Swydd Gweithiwr Achos**

Mae gweithwyr achos yn ymweld â chleientiaid i asesu eu cartrefi, gan anelu eu galluogi i fyw mor ddiogel ac mor annibynnol ag sydd modd. Maent yn dynodi peryglon posibl ac yn argymell ymyriadau priodol. Mae gweithwyr achos yn awgrymu mân gymhorthion ac addasiadau, yn rhoi cyngor ar atal syrthio ac yn atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill pan fo gan gleientiaid anghenion mwy cymhleth. Maent hefyd yn cynnal asesiadau ariannol i ddynodi budd-daliadau na chaiff eu hawlio, hawliau a chyfleoedd cyllid.

Er gwahaniaethau mewn daearyddiaeth, ffrydiau cyllid ac arbenigeddau – tebyg i golled synhwyraidd, effeithiolrwydd ynni neu gymorth ysbyty i'r cartref – daw gwerthoedd cyffredin i'r amlwg yn gyson: empathi, grymuso, ymddiriedaeth a chydweithio.

**Themâu Allweddol ar draws Swydd Gweithwyr Achos**

1. **Meithrin Ymddiriedaeth a Pherthynas**

Mae gweithwyr achos yn pwysleisio bod ymddiriedaeth yn sylfaen i'w swyddi. Mae llawer o gleientiaid yn teimlo'n amharod neu'n chwithig i ddechrau. Mae gweithwyr achos yn defnyddio dyfalbarhad tawel ac empathi i agor drysau.

*"Mae meithrin ymddiriedaeth yn allweddol. Fe wnes unwaith helpu menyw i dderbyn £100,000 o ôl-daliad budd-daliadau … Fe gymerodd amser a dyfalbarhad i roi sicrwydd iddi."* - Cath Dixon, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

*"Weithiau dim ond ar ôl ail neu drydydd ymweliad y mae pobl yn agor lan … Mae balchder yn beth mawr."* – Denise Jones, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Rydyn ni'n dweud wrth bobl, 'Unwaith rydyn ni'n gwybod amdanoch, rydyn ni'n gwybod amdanoch chi am byth.' Rwy'n dal i gael galwadau gan gleientiaid y gwnes eu helpu 15 mlynedd yn ôl."* – Gethyn Peploe, Gofal a Thrwsio Casnewydd

2. **Asesiad Holistig tu hwnt i'r Broblem Ddechreuol**

Anaml mai dim ond y cais dechreuol y mae gweithwyr achos yn ei drin. Maent yn ymchwilio anghenion ehangach, yn cynnwys ystyriaethau iechyd, diogelwch, ariannol ac emosiynol, gan sicrhau fod ymyriadau yn trin yr holl sefyllfa.

*"Mae bron bob ymweliad yn dechrau gyda un broblem ac yn dangos sawl un arall."* – Denise Jones, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Gallai cleient ffonio am fân broblem, ond pan ydyn ni'n ymweld, rydyn ni'n aml yn gweld fod llawer mwy yn mynd ymlaen – problemau symudedd, pryderon am wresogi neu fylchau budd-dal."* Kathryn Massie a Charlotte Owen, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain

Cymru

*"Gallai rhywun ddweud eu bod yn ymdopi'n iawn, ond wedyn rwy'n sylwi eu bod yn pwyso ar y wal i ddringo'r grisiau."* – Sophie Lewis, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

**3. Arsylwi fel Sgil Greiddiol**

Mae gweithwyr achos yn aml yn tanlinellu pwysigrwydd sylwi ar yr hyn nad yw cleientiaid yn ei ddweud. Maent yn arsylwi ar y cartref, yr amgylchedd a symudiadau cleientiaid i ddynodi risgiau ac anghenion cudd.

*"O'r foment rydw i'n camu allan o'r car, rydw i bob amser yn sylwi ar bopeth: y tŷ, beth sydd eisoes yn ei le, eu hamgylchedd."* – Cath Dixon, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

*"Rwyf bob amser yn asesu'r tu fas cyn mynd i mewn i adeilad – stepiau wedi torri, golau gwael, mynediad anniogel."* – Beth Price, Gofal a Thrwsio Cwm Taf

*"Gall pobl ymddangos yn iawn pan mae'n nhw'n eistedd a sgwrsio, ond gallwch weld eu heriau symud pan maent yn codi ac yn mynd o gwmpas."* – Iona Jones, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

**4. Cydbwyso Cymorth a Grymuso**

Mae gweithwyr achos yn cerdded llinell denau rhwng cynnig help a chadw annibyniaeth. Maent yn annog cleientiaid i wneud yr hyn fedrant i'w helpu eu hunain a sicrhau fod pob penderfyniad yn aros gyda'r cleient.

*"Mae'n bwysig dal ati i rymuso cleientiaid. Os gallan nhw wneud rhywbeth eu hunain, fel ffonio cwmni nwy neu drydan, byddaf yn eu hannog i wneud hynny."* – Jane Howells, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

*"Yn y pen draw, penderfyniad y cleient yw popeth rydyn ni'n ei argymell… Eu cartref nhw ydi o a nhw sydd mewn rheolaeth."* – Amanda Derbyshire, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

*"Weithiau mae cleientiaid yn gwrthod gwaith, ac mae hynny'n iawn. Rydych chi'n esbonio, yn cefnogi, ond yn y pen draw eu penderfyniad nhw ydi o."* – Tracy Jones, Gofal a Thrwsio Powys

**5. Llywio Heriau Cyllid**

Mae gweithwyr achos yn sôn am gyfyngiadau cyllid a'r creadigrwydd sydd ei angen i ymestyn adnoddau. Maent yn rheoli disgwyliadau cleientiaid tra'n cynyddu i'r eithaf effaith y cyllid sydd ar gael.

*"Cyllid yw'r her fwyaf, ac felly y bu hi bob amser. Hebddon ni, byddai effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd."* – Jane Howells, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

*"Mae cyllid dyngarol yn crebachu – efallai mai dim ond ychydig gannoedd nawr yw'r hyn a arferai fod yn £4,000 neu £5,000."* – Tracy Jones, Gofal a Thrwsio Powys

*"Mae cleientiaid yn aml eisiau pethau tu hwnt i gwmpas cyllid – Mae rheoli disgwyliadau*

*yn rhan allweddol o'r swydd."* – Iona Jones, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

*"Yr hyn sy'n rhoi gobaith i fi yw gweld, er fod adnoddau yn gyfyngedig, ein bod yn dal i ganfod ffyrdd i gefnogi pobl."* – Dawn Grant-Crichton, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

**6. Gwobr a Diben mewn Gwneud Gwahaniaeth**

Er yr heriau, mae gweithwyr achos yn gyson yn disgrifio'r gwaith fel bod yn ystyrlon a gwerth chweil. Mae helpu cleientiaid i fyw'n fwy diogel ac annibynnol yn rhoi boddhad iddynt.

*"Nid dim ond ticio blychau ydych chi – rydych chi yn helpu pobl i fyw'n fwy diogel ac annibynnol. Mae hynny'n golygu llawer."* – Sophie Lewis, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

*"Gen i mae'r swydd orau yn y byd ... Mae'n teimlo'n wych pan ydych yn helpu rhywun i fynd gartre o'r ysbyty."* – Carol Williams, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

*"Nid yw'r swydd yma yn rhywbeth y gallwch ddim ond ei hoffi – mae'n rhaid i chi ei charu."* – Jenny Warlow, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru



# Tasgmyn

<u>**Crynodeb o Swydd Tasgmyn**</u>

Mae tasgmyn ar draws Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn weithwyr medrus a hyblyg sy'n gwneud gwelliannau ymarferol i gartrefi sy'n galluogi pobl hŷn a bregus i fyw'n ddiogel ac annibynnol. Mae eu gwaith – yn amrywio o osod canllawiau, rampiau a seffau allweddi i fân waith trwsio – yn cefnogi'n uniongyrchol genhadaeth y sefydliad o ofal, atal a chymorth.

Tu hwnt i waith trwsio technegol, mae tasgmyn yn aml yn gweithredu fel y cyswllt wyneb-i-wyneb cyntaf ar gyfer cleientiaid ynysig. Yn ogystal â'r dasg uniongyrchol maent hefyd yn asesu diogelwch a llesiant ehangach. Maent yn sylwi ar beryglon, yn gwneud atgyfeiriadau ac yn addasu eu dull gweithredu i anghenion unigol.

Mae'r gwerthoedd a gaiff eu rhannu ar draws y swydd yn cynnwys parch at gleientiaid, crefftwaith safon uchel ac ymdeimlad cryf o ddiben cymdeithasol. Mae llawer yn ymfalchïo mewn gwybod y gall hyd yn oed newidiadau bach gael effeithiau sy'n newid bywyd.

<u>**Prif Themâu ar draws Swyddi Tasgmyn**</u>

**1. Diogelwch ac Atal Syrthio**

Mae tasgmyn yn dweud fod atal syrthio yn ganolog i'w swydd. Mae addasiadau bach yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddiogelwch ac annibyniaeth cleient.

"*Pe byddai rhywun yn gofyn i mi beth rydw i'n ei wneud, fe fyddwn i'n dweud mod i'n atal pobl rhag syrthio. Fe fyddwn i'n hoffi meddwl mod i wedi atal cryn dipyn yn fy amser.*" – Kevin Jones, Gofal a Thrwsio Powys

*"Mae am wneud yr effaith leiaf i'r adeilad a'r effaith fwyaf ar annibyniaeth y cleient."* – Simon Peel, Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr

*"Os yw newid bylb golau yn atal Mrs Thomas rhag syrthio lawr y grisiau, mae hynny'n enilliad fawr yn fy meddwl i."* – Darren Hayes, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

**2. Brys a'r Gallu i Ymateb**

Mae gwaith rhyddhau o ysbyty yn golygu fod angen gweithredu'n gyflym i wneud cartrefi yn ddiogel. Mae tasgmyn yn rhoi blaenoriaeth i achosion brys, gan ail-drefnu llwyth gwaith neu gamu i mewn yn gyflym i gwblhau tasgau hanfodol.

*"Rydyn ni'n rhoi blaenoriaeth i achosion brys, yn arbennig rhyddhau o ysbyty. Os oes rhywbeth brys yn dod mewn, fe fyddaf yn ail-drefnu pethau neu'n neidio mewn i wneud y gwaith fy hun."* – Nigel Williams, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

*"Rhyddhau o ysbyty a gosod teleofal yw'r rhan fwyaf o fy ngwaith. Rydw i yn ceisio gorffen swyddi brys yr un diwrnod os yw'n bosibl."* – Darren Hayes, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

*"Mae tua hanner y swyddi rwy'n eu gwneud yn frys ar gyfer rhyddhau o ysbyty – mae'n rhaid i chi weld yr eiddo o safbwynt rhywun gyda llai o allu i symud neu olwg gwael."* – Simon Peel, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

**3. Arsylwi Holistig a Diogelu**
Mae tasgmyn yn effro i risgiau ehangach ac yn ymyrryd mewn sefyllfaoedd critigol pan fo angen. Maent yn sylwi ar beryglon, yn dynodi anghenion na chaiff eu cyflawni ac yn esgyn pryderon am ddiogelu er mwyn amddiffyn cleientiaid.

*"Fe wnes i glywed rhywun yn griddfan y tu mewn. Ffoniais fab y cleient, a wnaeth ei anwybyddu. Pan es tu mewn, roedd y dyn yn methu symud o lawr yr ystafell ymolchi. Mewn sefyllfaoedd fel hynny rydych chi'n wir yn gweld y gwahaniaeth a wnaiff y gwasanaeth yma."* – David Williams, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Roeddwn i wedi mynd yno i osod llenni, ond gwelais nad oedd ganddi unrhyw wres, dim dŵr twym na dim bwyd. Fe wnaeth hynny droi yn achos o ddiogelu."* – Simon Peel, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

*"Mae'r tîm bob amser yn effro i faterion tu hwnt i friff y swydd – fel deinameg teulu sy'n awgrymu pryderon am ddiogelu … rydyn ni'n cysylltu gyda gwasanaethau priodol."* – Giovanni Braia, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

**4. Cysylltiad Dynol a Gostwng Teimladau o fod yn Ynysig**
Mae tasgmyn yn sylweddoli fod sgwrs yr un mor bwysig â gwaith trwsio. Mae llawer o gleientiaid yn croesawu cysylltiad cyfeillgar sy'n dangos parch, sy'n helpu i ostwng teimladau o fod yn ynysig a chynyddu llesiant.

*"Fe wnaeth un cleient siarad gyda fi am awr, yna benderfynu peidio gwneud y gwaith – ond dywedodd ei bod yn teimlo gymaint gwell am siarad. Roedd hynny'n werth y byd."* – Kevin Jones, Gofal a Thrwsio Powys

*"Mae treulio amser yn sgwrsio wrth wneud y gwaith olygu yn gallu golygu llawer iddyn nhw."* – Gweno Hughes, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

*"Yn aml ni yw'r unig bobl maen nhw'n eu gweld, felly mae'n hanfodol bod yn gyfeillgar a dangos parch."* – Sam Lewis, Gofal a Thrwsio Cwm Taf

**5. Safonau Proffesiynol a Chrefftwaith Safon Uchel**
Mae ymroddiad i safonau uchel yn sylfaen i'n holl waith. Mae tasgmyn yn sicrhau fod gwaith gosod yn ddiogel, yn gweithio'n dda ac yn dangos parch at gartrefi cleientiaid, gan gadw safon a gofal ym mhob tasg.

*"Mae pawb yn gwybod – os na chaiff ei wneud yn iawn, mae'n fater o fynd yn ôl a'i ail-wneud. Fe fyddai'n well gen i eich gweld yn gosod pump step rhagorol na deg o rai gwael."* – Mike Parcell, Gofal a Thrwsio Bae Abertawe

*"Fyddwn i ddim yn rhoi dim yng nghartref rhywun na fyddwn i'n ei roi yn nhŷ fy mam-gu fy hun."* – Mike Purcell, Gofal a Thrwsio Bae Abertawe

*"Rydyn ni'n parchu cartrefi pobl, yn glanhau ar ein hôl ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n*

*gysurus. Fedrwch i ddim ei ruthro, rydych chi'n addasu."* – Darren Jones, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

**6. Gallu i Addasu a Datrys Problemau**

Mae tasgmyn yn defnyddio creadigrwydd a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cleientiaid. Maent yn addasu datrysiadau a chynlluniau yn y fan a'r lle i sicrhau diogelwch a hygyrchedd a bod cleientiaid yn fodlon.

*"Rydw i hefyd yn cynnal ymweliadau ar y cyd gyda therapyddion galwedigaethol, yn arbennig ar gyfer achosion anodd lle mae angen cael datrysiad creadigol."* – Steve Walker, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

*"Gofynnwyd i mi osod canllaw ar y grisiau a chanllaw tynnu lawr. Pan oeddwn yno, fe sylwais i nad oedd y stepiau blaen yn iawn. Rydyn ni'n awr yn gosod llwyfannau a stepiau newydd i godi popeth i safon."* – Jacob McGuinness-Grant, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

*"Weithiau rydw i'n cael cais i ddatrys problemau cymhleth gyda swyddogion technegol, gweithwyr achos neu therapyddion galwedigaethol – fel cynllunio rhywbeth yn lle ffon gwely yn defnyddio canllaw tynnu lawr, a drodd mas i fod yr ateb perffaith."* – Dean Coombes, Gofal a Thrwsio Casnewydd



# Gweinyddwyr

## Crynodeb o Swydd Gweinyddwyr

Gan weithio mewn swyddi o Swyddog Gweinyddol i Gynorthwyydd Gweithredol, mae gweinyddwyr Gofal a Thrwsio yn gweithredu tu ôl i'r llenni fel cydlynwyr ac yn datrys problemau sy'n cadw gwasanaethau yn rhedeg yn llyfn.

Nhw yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cleientiaid, llawer ohonynt yn fregus, gofidus neu'n ansicr ble i droi. Mae eu gwaith yn llunio profiad cleientiaid o'r sefydliad.

Ymhell o fod yn "dim ond gweinyddiaeth", mae'r swyddi hyn yn cyfuno dyrannu achosion, rheoli data, cydlynu gyda chontractwyr, cyllidebu a chyfathrebu sensitif gyda chleientiaid. Mae gweinyddwyr yn addasu i bob sefyllfa, p'un ai'n siarad yn fwy araf ar gyfer rhywun sydd wedi colli eu clyw, trefnu gwres argyfwng ar gyfer cleientiaid heb wres yn y gaeaf neu sicrhau adroddiadau cywir ar gyfer rhaglenni cenedlaethol.

Yr hyn a ddaw'n amlwg o'u cyfweliadau yw portread o ymroddiad, empathi a hyblygrwydd. Mae gweinyddwr yn gweithredu tu ôl i'r llenni, eto mae eu gallu i gydbwyso effeithiolrwydd gyda thosturi yn diffinio gwasanaethau Gofal a Thrwsio ar draws Cymru.

## Themâu Allweddol ar draws Rolau Gweinyddwyr

### 1. Pwynt Cyswllt Cyntaf a Phorthgeidwaid Ymddiriedaeth

Mae gweinyddwyr yn gweithredu fel y pwynt mynediad i Gofal a Thrwsio. Mae eu harddull, cywair ac effeithiolrwydd yn cael dylanwad uniongyrchol ar os yw cleientiaid yn teimlo'n hyderus i symud ymlaen. Mae llawer yn tanlinellu pwysigrwydd y sgwrs gyntaf honno wrth feithrin ymddiriedaeth hirdymor.

*"Os yw cyswllt cyntaf cleient yn wael, efallai na fyddan nhw eisiau cysylltu ymhellach. Rydyn ni'n ceisio efelychu cynhesrwydd wyneb-i-wyneb dros y ffôn."* – Dominika Mielniczuk, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

*"Mae'r cyswllt cyntaf gyda'r cleient yn bwysig tu hwnt. Mae'n gosod y cywair ar gyfer ymddiriedaeth ac yn helpu i sicrhau ein bod yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol."* – Paul Griffiths, Gofal a Thrwsio Bae Abertawe

*"Rydw i'n ystyried mai fi yw wyneb y sefydliad. Mae'r argraff gyntaf yn hollbwysig."* – Sheryl Vernon-Williams, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

### 2. Swyddi Ymhell Tu Hwnt i "Weinyddiaeth"

Yn aml mae gan weinyddwyr swydd llawer ehangach nag mae teitl y swydd yn awgrymu. Maent yn gweithredu fel cydlynwyr, rheolwyr prosiect ac yn cadw golwg ar gyllidebau. Maent yn dyrannu gwaith, yn cysylltu â chontractwyr ac yn datrys problemau mewn achosion cymhleth.

*"Mae teitl 'Swyddog Cymorth Gweithwyr Achos' yn ffitio'n well na 'Gweinyddwr' oherwydd mae fy ngwaith yn mynd ymhell tu hwnt i waith gweinyddol arferol."* – Alex Murdoch, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

*“Rwy’n trin y cyllid ar gyfer yr adran fasnachu, sy’n cynnwys rheoli anfonebau cyflenwyr a gwerthu ac olrhain popeth ar daenlenni.”* – Darryl Robertson, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

*“O ran yr hyn rydw i’n ei wneud, mae fy swydd yn gweithredu fel dolen rhwng holl wahanol rannau Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru.”* – Edward Johnson, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

**3. Bod yn Sensitif a Gallu Addasu**

Mae gweinyddwyr yn aml yn siarad gyda chleientiaid sy’n ofidus, yn wael neu sydd ag amhariad gwybyddol. Maent yn addasu eu dull i fedru cyfathrebu mewn modd priodol.

*“Rydw i’n siarad yn araf, uwch ac yn sillafu pethau mas ar gyfer rhai sy’n cael trafferth clywed. Rydwi’n anfon llythyrau print bras ar gyfer rhai sydd â nam ar eu golwg.” –* Dominica Mielniczuk, Gofal a Thrwsio Caerdydd a’r Fro

*“Pan fydd pobl yn galw yn gofyn am rywbeth na fedrwn ei wneud, rydw i’n ymddiheuro, esbonio ein cyfyngiadau a chynnig manylion contractwyr lleol a fedrai helpu. Rydw i’n ceisio rhoi sicrwydd ac opsiynau, hyd yn oed pan na fedrwn ni roi cymorth uniongyrchol.”* – Katie Pugh, Gofal a Thrwsio Powys

*“Fe fyddwn i eisiau i rywun helpu fy mam fel hyn.” – Deborah Ann-Thomas, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr*

**4. Rheoli Disgwyliadau dan Bwysau**

Gyda galw uchel, adnoddau cyfyngedig a meini prawf cymhleth ar gymhwyster, mae gweinyddwyr yn cyfathrebu’n glir am yr hyn y gallant ei wneud a phryd. Maent yn rhoi sicrwydd yn ogystal ag arweiniad logistaidd, gan helpu cleientiaid i ddeall prosesau ac amserlenni.

*“Mae pawb yn meddwl fod eu hachos nhw yn un o frys. Weithiau rydw i’n trefnu ymweliad ddim ond i roi sicrwydd iddynt fod rhywbeth yn cael ei wneud.”* Deborah Ann-Thomas, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

*“Gall rheoli disgwyliadau fod yn anodd – rwy’n onest am amserlenni o’r cychwyn cyntaf.”* – Abbie Desmond, Gofal a Thrwsio Casnewydd

*“Mae blaenoriaethu yn allweddol. Rydyn ni’n aml yn cael swyddi brys, yn arbennig ar gyfer rhyddhau pobl o ysbyty pan na fedrir gadael i berson fynd adre nes bod rhai addasiadau wedi cael eu gwneud.”* – Edward Johnson, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

**5. Gwaith Tîm Cryf a Pherthnasoedd**

Mae gwaith tîm mewnol a phartneriaethau allanol yn sylfaen i lwyddiant gwaith gweinyddwyr. Maent yn cydlynu’n barhaus gyda gweithwyr achos, swyddogion technegol, therapyddion galwedigaethol, contractwyr a chyllidwyr.

*“Mae rhai pobl yn ffonio a dweud, “Helo Anna, fi sydd yma eto.’ Maent wedi cael gwaith wedi’i wneud o’r blaen ac yn gofyn am yr un tasgmon wrth ei enw.”* – Annwyl Tru, Gofal a Thrwsio, Sir Gaerfyrddin

"*Rydyn ni'n cydlynu bob dydd gyda gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, cleientiaid a chontractwyr."* – Katherine Morgan-Evans, Gofal a Thrwsio Cwm Taf

**6. Gwytnwch Emosiynol gyda Gwobrau Dynol**

Yr elfen emosiynol yw rhan galetaf a hefyd fwyaf gwerth chweil y swydd. Mae gweinyddwyr yn ymwneud yn gyson ag achosion diwedd bywyd, teuluoedd mewn gofid a chleientiaid sy'n byw mewn amodau anniogel. Er y pwysau emosiynol, mae llawer yn dweud ei fod ei werth ef ar gyfer yr enydau o ddiolch ac effaith amlwg.

*"Rydyn ni wedi cael teuluoedd yn ffonio'n ôl yn eu dagrau, gan ddweud ein bod wedi helpu i wneud i ddymuniad olaf rhywun ddod yn wir."* – Gemma Pit, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

*"Fe wnaeth fy ngalwad ffôn hiraf barhau am dros awr. Nid oedd y fenyw wedi siarad gyda neb mewn wythnosau a'r cyfan roedd ei angen oedd sgwrs."* – Dominika Mielniczuk, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro



## Swyddogion Technegol

<u>**Crynodeb o swydd Swyddog Technegol**</u>

Mae Swyddogion Technegol yn ganolog i genhadaeth Gofal a Thrwsio i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy roi cyngor arbenigol a rheoli prosiectau trwsio ac addasu.

Mae'r swydd yn cyfuno gwybodaeth dechnegol gyda ffocws cryf ar ofal cleientiaid, gan sicrhau fod yr holl waith yn symud ymlaen yn effeithiol, diogel ac yn unol ag anghenion yr unigolyn a gofynion rheoleiddio.

Mae Swyddogion Technegol yn asesu anheddau ac yn rhoi arweiniad clir a phroffesiynol ar opsiynau trwsio ac addasu. Maent yn teilwra cyngor i anghenion unigol, gan ddefnyddio gwybodaeth dechnegol o batholeg adeilad, dulliau adeiladu a deddfwriaeth berthnasol. Maent yn rheoli prosiectau o'r fanyleb ddechreuol i gwblhau y gwaith. Maent yn paratoi lluniau manwl, manylebion a rhestri gwaith, yn trefnu dyfynbrisiau cystadleuol a rhoi cyfarwyddyd i gontractwyr. Ym mhob rhan o'u gwaith, mae Swyddogion Technegol yn monitro cynnydd, asesu ansawdd, yn rheoli gofynion iechyd a diogelwch ac yn sicrhau fod yr holl waith yn cyrraedd safonau a gytunwyd. Er bod cyfrifoldebau dyddiol yn amrywio ar draws Asiantaethau, mae llinynnau cyffredin – arbenigedd technegol, ffocws ar gleientiaid a rheoli prosiect trylwyr – yn rhedeg drwy holl waith Swyddogion Technegol.

<u>**Themâu Allweddol ar draws Swyddi Swyddogion Technegol**</u>

**1. Gofal a Thosturi yn Werthoedd Creiddiol**

Mae pob Swyddog Technegol yn pwysleisio nad yw gallu technegol yn ddigon ar ei ben ei hun – mae empathi yn hanfodol. Maent yn cyfuno sgiliau gyda thosturi ac ymroddiad i sicrhau fod cleientiaid yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u parchu.

*"Mae'r swydd yma'n wirioneddol bwysig. Mae'n fwy na dim ond gwaith technegol – mae'n ymwneud ag ymddiriedaeth, cyfathrebu a thrin pobl gydag urddas."* – Dylan Jones, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

*"Y gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer y gwaith yma ydi tosturi, amynedd a chredu yn ein cenhadaeth. Mae'n fwy na dim ond swydd."* – Stuart Pitt, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

*"Yn y pen draw, yr hyn rydyn ni yn ein gynnig i gleientiaid yw sicrwydd, symlrwydd a gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol. Rydyn ni'n rheoli cymhlethdodau adeiladu, yn cydlynu gyda chontractwyr, yn trin gwaith papur ac yn sicrhau fod yr holl broses mor llyfn ag sydd modd."* – Francis Pitt, Gofal a Thrwsio Powys

**2. Ymddiriedaeth a Pherthynas gyda Chleientiaid**

Dro ar ôl tro, roedd Swyddogion Technegol yn dweud mai ymddiriedaeth yw sylfaen gwaith effeithlon. Maent yn meithrin perthynas o'r ymweliad cyntaf, gan helpu cleientiaid i deimlo'n ddiogel a hyderus gyda sicrwydd eu bod yn cael arweiniad proffesiynol a dibynadwy.

*"Mae ymddiriedaeth yn hanfodol. Heb hynny, wnewch chi ddim hyd yn oed fynd drwy'r drws."* – Craig Beckett, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro

*"Mae cleientiaid yn ymddiried ynddom ni gan ein bod yn agored .. Cyhyd â mod i'n onest ac agored drwy'r broses, gall cleientiaid ymddiried eu bod yn cael cyngor da a gwerth am arian."* – Gareth Davies, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Mae'r ymweliad cyntaf â chleient yn hollbwysig – mae'n meithrin ymddiriedaeth. Gallwch weld y rhyddhad ar eu hwynebau pan maent yn sylweddoli eu bod mewn dwylo diogel."* – Paul David, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol

**3. Cyngor Onest ac Agored**

Mae Swyddogion Technegol yn rhoi cyngor fel pe byddent yn ei roi i aelod o'u teulu. Maent yn cyfathrebu'n glir am opsiynau, cyfyngiadau a risgiau, gan sicrhau fod cleientiaid yn gwneud penderfyniadau gwybodus gan gadw safonau uchel ar gyfer diogelwch ac ansawdd.

*"Rydw i'n dweud, 'Fe fyddaf yn rhoi'r un cyngor i chi ag y byddwn yn ei roi i fy rhieni'."* – Dave Boyce, Gofal a Thrwsio Cwm Taf

*"Dydyn ni byth yn torri corneli. Rydyn ni'n delio gyda phobl fregus ac eiddil ac atal syrthio. Mae'n rhaid gwneud popeth i safon uchel."* – Gareth Davies, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Rydw i bob amser yn ei gwneud yn glir: 'Fedrwn i ddim eich gorfodi i wneud dim byd. Dyma fy nghyngor i. Chi sydd i benderfynu'."* Josh Emery, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

**4. Cydbwyso Trylwyredd Technegol gyda Sensitifrwydd Dynol**

Mae Swyddogion Technegol yn cyfuno gofynion technegol gydag ymwybyddiaeth o anghenion emosiynol cleientiaid. Maent yn esbonio gwybodaeth gymhleth mewn termau syml, gan barchu dealltwriaeth a sefyllfa cleientiaid.

*"Rydw i'n torri pethau lawr i dermau syml: beth mae'r rheoliadau adeiladau ei angen, yr hyn yr ydym wedi'i weld a pham y gallwn neu na allwn barhau. Mae cleientiaid yn gwerthfawrogi'r onestrwydd."* – Gareth Davies, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Mae cyfathrebu yn rhan fawr o'r swydd – esbonio dewisiadau i gleientiaid a'u teuluoedd, yn arbennig pan nad ydyn nhw yn gyfarwydd gyda thermau technegol neu gynnyrch."* – Chris James Wood, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

*"Rydw i yn gwirio am eglurdeb, llif a manylion technegol i sicrhau y gall contractwyr brisio a chwblhau'r gwaith yn llyfn."* – Michael Lock, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

**5. Diogelu Cleientiaid rhag Contractwyr Twyllodrus**

Mae Swyddogion Technegol yn diogelu cleientiaid drwy oruchwylio, dilysu contractwyr a monitro ansawdd. Maent yn atal camfanteisio ac yn sicrhau fod pobl fregus yn derbyn gwaith dibynadwy a safon uchel.

*"Mae llawer yn fregus neu'n bryderus ar ôl profiadau negyddol gyda chontractwyr twyllodrus, felly mae rhoi sicrwydd a meithrin ymddiriedaeth yn hanfodol."* – Michael Lock, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili

*"Un o fy swyddi cyntaf oedd archwilio to oedd yn gollwng oedd wedi cael ei wneud gan gontractwr twyllodrus – flynyddoedd wedyn, clywais ei fod wedi cael ei ddal a'i ddedfrydu, diolch yn rhannol i'r adroddiad hwnnw."* – Gareth Davies, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

*"Heb Gofal a Thrwsio byddai llawer o bobl yn agored i gamfanteisio arnyn nhw ... mae ein gwasanaeth ni yn atal hynny."* - Chris James Wood, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

**6. Gwaith Tîm a Chydweithio**

Mae Swyddogion Technegol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr achos, therapyddion galwedigaethol, contractwyr a chydweithwyr. Maent yn cydlynu'n effeithiol, yn rhannu arbenigedd ac yn datblygu cynlluniau holistig i ddiwallu anghenion cleientiaid yn effeithiol ac yn ddiogel.

*"Mae tîm Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn wych. Mae'n grŵp bach, clos ... mae pawb yn rhannu'r un nod – gwneud y gorau i'r cleient."* – Louis Preece, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

*"Diolch byth, rydw i'n gweithio gyda gweithwyr achos sy'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol. Rydyn ni'n medru rhannu'r cyfrifoldeb a datblygu cynllun mwy holistig ar gyfer y cleient."* – Robert Lucas, Gofal a Thrwsio Casnewydd

*"Nid dim ond fi sy'n cymeradwyo contractwyr, ond hefyd fy rheolwr a'n bwrdd. Mae'r llywodraethiant yn gryf ac wedi ei strwythuro'n dda."* – Simon Evans, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych



## Casgliadau

Mae'r cyfweliadau ar draws y 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn dangos cryfderau'r gweithlu a hefyd y cyfleoedd ar gyfer gwella parhaus. Daeth nifer o wersi allweddol i'r amlwg:

1. Ei bobl yw ased fwyaf Gofal a Thrwsio. Mae staff yn dod ag empathi, uniondeb a chreadigrwydd i'w swyddi, yn aml yn mynd tu hwnt i'w disgrifiadau swydd ffurfiol. Mae buddsoddiad parhaus mewn llesiant, datblygu proffesiynol a chydnabyddiaeth staff yn hanfodol i gynnal yr ymrwymiad hwn.

2. Mae ymddiriedaeth a pherthynas yn gyrru canlyniadau. Yn aml gallu staff i feithrin perthynas gyda chleientiaid yw'r hyn sy'n gwneud ymyriadau yn bosibl. Dylai hyfforddiant, cymorth i gymheiriaid ac arfer myfyriol barhau i roi blaenoriaeth i sgiliau perthynol ynghyd â gwybodaeth dechnegol.

3. Mae ymarfer holistig yn gryfder sy'n diffinio. Mae'n gyffredin i staff ddynodi risgiau cudd ac anghenion na chaiff eu diwallu tu hwnt i'r broblem ddechreuol. Gallai cipio'r dull hwn a'i wneud yn rhan o'r system sefydlu'r ethos ataliol ymhellach ar draws pob asiantaeth.

4. Mae'r gallu i addasu yn hanfodol ond gall fod yn feichus. Disgrifiodd staff gydbwyso terfynau cyllid, galw cynyddol a phwysau emosiynol gweithio gyda chleientiaid bregus. Bydd cefnogi cydnerthedd drwy oruchwyliaeth, rhwydweithiau dysgu cymheiriaid a chynlluniau llesiant yn sicrhau fod y gweithlu yn parhau yn gynaliadwy.

5. Mae cydweithio yn allweddol i effeithlonrwydd. Mae gwaith tîm mewnol cryf a phartneriaethau dibynadwy gyda chontractwyr, therapyddion galwedigaethol a chyllidwyr yn sylfaen i lwyddiant. Gallai mwy o gydweithio ar draws swyddi a dysgu rhyng-asiantaeth ledaenu arfer gorau a gostwng amrywioldeb.

6. Mae gwelliant parhaus angen ystyriaeth ac adborth. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn adnodd gwerthfawr ynddi ei hun ar gyfer dysgu sefydliadol. Dylid sefydlu ymgysylltu staff yn y dyfodol i fewn i fframwaith ansawdd Gofal a Thrwsio, gan sicrhau fod profiadau rheng flaen yn llywio datblygu strategol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos eto mai ei bobl yw cryfder mwyaf Gofal a Thrwsio. Mae staff yn dod ag arbenigedd technegol, tosturi dynol ac ymroddiad a gaiff ei rannu i urddas ac annibyniaeth. Fodd bynnag, mae'r gweithlu hwn hefyd yn wynebu pwysau sylweddol, sydd angen cymorth wedi ei strwythuro a chyfleoedd i rannu dysgu.

# Diolchiadau

Diolch yn arbennig i Neil Williams a gafodd y weledigaeth ar gyfer y prosiect a'i ddechrau cyn iddo ymddeol.

Diolch i'r holl aelodau staff a gytunodd gymryd rhan yn y cyfweliadau:

**Gweithwyr Achos**

- Carol Williams – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol
- Jayne Howells – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili
- Sophie Lewis – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro
- Gethyn Peploe – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Casnewydd
- Amanda Derbyshire – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Beth Price – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Cwm Taf
- Kathryn Massie – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru
- Charlotte Owen – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru
- Jenny Warlow – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru
- Iona Jones – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn
- Tracy Jones – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Powys
- Dawn Grant-Crichton – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen
- Denise Jones – Gweithiwr Achos, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin
- Cath Dixon – Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iach, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

**Gweinyddwyr**

- Paul Griffiths  Cynorthwyydd Gweithredol, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol
- Darryl Robertson – Swyddog Gweinyddol a Chyllid, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili
- Dominika Mielniczuk – Swyddog Gwybodaeth a Chyngor, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro
- Abbie Desmond – Cynorthwyydd Gweinyddol, Gofal a Thrwsio Casnewydd
- Alex Murdoch – Swyddog Cymorth Gweithwyr Achos, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Katherine Morgan-Evans – Cynorthwyydd Prosiect, Gofal a Thrwsio Cwm Taf
- Edward Johnson – Gweinyddydd, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru
- Sheryl Vernon Williams – Gweinyddydd, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn
- Katie Pugh – Gweinyddydd, Gofal a Thrwsio Powys
- Gemma Pitt – Gweinyddydd Gweithwyr Achos, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen
- Annwyl Tru – Uwch Weinyddydd, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin
- Deborah Ann-Thomas – Arweinydd Tîm Gweinyddol, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

**Tasgmyn**

- Mike Parcell – Uwch Dasgmon, Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol
- Nigel Williams – Rheolwr Llinell Gwasanaeth Cynnal a Chadw, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili
- Darren Hayes – Tasgmon, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro
- Dean Coombes – Tasgmon, Gofal a Thrwsio Casnewydd

- Giovanni Braia – Rheolwr Gwella Cartrefi, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Sam Lewis – Uwch Dasgmon, Gofal a Thrwsio Cwm Taf
- Steve Walker – Goruchwyliwr Gwasanaethau Ymarferol, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru
- Jacob McGuinness-Grant, Crefftwr, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru Ddwyrain Cymru
- Gweno Hughes – Tasgmon, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn
- Kevin Jones – Swyddog Mân Addasiadau, Gofal a Thrwsio Powys
- Darren Jones – Technegydd Diogelwch yn y Cartref, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen
- David Williams – Tasgmon, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin
- Simon Peel – Swyddog Diogelwch Cartrefi, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

**Swyddogion Technegol**

- Paul David – Swyddog Technegol Gofal a Thrwsio Bae Gorllewinol
- Michael Lock – Uwch Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent a Chaerffili
- Craig Beckett – Uwch Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro
- Robert Lucas – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Casnewydd
- Simon Evans – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Dave Boyce – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Cwm Taf
- Chris James Wood – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru
- Louis Preece – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru
- Dylan Jones – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn
- Francis Pitt – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Powys
- Stuart Pitt – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen
- Gareth Davies – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin
- Josh Amery – Swyddog Technegol, Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig (Rhif 1163542)
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif 09574555).